| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Gwasanaeth i'r Ysgol Gyfan (CA2) |
| Disgrifiad: | Thema Atgofion Plentyndod |
| Blynyddoedd ysgol: | Ysgol gyfan |
| Testun Dylan Thomas | Nadolig Plentyn yng Nghymru |
| Offer angenrheidiol: | • Hambwrdd gyda 10-12 gwrthrych arno a lliain i'w gorchuddio nhw.<br>• O bosib: y dyfyniad isod ar y Bwrdd Gwyn? |
| Trefn a awgrymir: | • Byddwch â hambwrdd gyda 10 i 12 gwrthrych arno. Codwch bob gwrthrych yn ei dro, yna gorchuddiwch y cyfan a gofyn i blant unigol beth y gallan nhw ei gofio o'r hambwrdd.<br><br>• Esboniwch, fel oedolyn, fod eich cof yn pallu! Mae gennym lawer o bethau sy'n ein helpu i gofio'r dyddiau hyn ... dyddiadur, nodiadau ar eich ffôn, rhestri ... ond un o'n hoff ffyrdd o gofio'r gorffennol yw edrych ar ffotograffau neu ddyddiaduron/llyfrau atgofion.<br><br>• Rhannwch atgof plentyndod eich hun â'r grŵp.<br><br>• Mae llawer o waith Dylan Thomas wedi'i seilio ar ei atgofion plentyndod, gallodd ysgrifennu nifer ohonyn nhw i lawr ac felly rydyn ni'n ddigon ffodus i allu eu rhannu nhw.<br><br>• Rhannwch y dyfyniad *"Yn y blynyddoedd hynny a drôdd o gwmpas cornel y dre glan môr, roedd un Nadolig mor debyg i'r llall; y blynyddoedd hynny sydd erbyn hyn y tu hwnt i sŵn, oni bai am siarad pell y lleisiau a glywaf weithiau cyn cysgu, fel na allaf yn fy myw gofio a fu' hi'n bwrw eira am chwe niwrnod a chwe noson pan oeddwn i'n ddeuddeg ynteu a fu hi'n bwrw eira am ddeuddeg diwrnod a deuddeg noson pan oeddwn i'n chwech."*<br>— *Dylan Thomas*, *Nadolig Plentyn yng Nghymru*<br><br>• Pam mae hi'n bwysig rhannu atgofion â phobl? Gallwn ddysgu llawer am y gorffennol o'r atgofion hyn. Gofynnwch i'ch rhieni, eich neiniau a'ch teidiau/mam-gu neu eich tad-cu am hoff ddigwyddiad y maen nhw'n ei gofio o'u plentyndod. Ydyn nhw wedi ysgrifennu'r atgofion hyn i lawr yn rhywle?<br><br>• Ond weithiau mae'n beth da os yw eich cof yn fyr! Pryd gallai hynny fod? Os ydyn ni wedi ypsetio am rywbeth neu os ydyn ni wedi bod yn cweryla â rhywun. Weithiau mae gallu maddau ac anghofio'n beth da. |

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau estyn: | Edrych ar ddyfyniadau eraill am blentyndod Dylan Thomas yng Nghymru. E.e. 'Roedd hi'n bwrw eira llynedd hefyd. Fe wnes i ddyn eira ac fe chwalodd fy mrawd i e, ac fe fwres i 'mrawd i, ac wedyn fe gawsom ni de.' — Dylan Thomas, *Nadolig Plentyn yng Nghymru*<br>Atgofion am berthnasoedd teulu, pam rydyn ni'n cofio rhai pethau ond yn anghofio rhai eraill? |
| Cysylltiadau perthnasol: | Dydd Sul y Cofio. Beth rydyn ni'n ei gofio ar y diwrnod hwn a pham?<br>Cysylltiad crefyddol: Mae Cristnogion yn credu bod Duw'n maddau ac yn anghofio. Sychu'r bwrdd yn lân. Mae'r Beibl yn annog Cristnogion i beidio ag anghofio'r hyn y mae Duw wedi'i wneud drostyn nhw. |
| Gweddi: | O Dduw,<br>Diolch i Ti am yr holl atgofion y mae ein ffrindiau, ein teuluoedd, digwyddiadau a lleoedd arbennig yn eu rhoi i ni. Helpa ni i gofio'r adegau hapus hyn a dysgu i anghofio'r atgofion hynny nad ydyn nhw mor hapus, efallai. Helpa ni hefyd i wneud pethau dros bobl eraill sy'n gwneud iddyn nhw wenu pan fyddan nhw'n meddwl am yr hyn rydyn ni wedi'i wneud.<br>Amen. |

** Mae'r gwasanaethau yma yn addas ar gyfer eu defnyddio mewn gwersi hefyd*